



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

CYSAG

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 23AIN TACHWEDD, 2021

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom
Cysylltwch ar gyfer mynediad i'r cyhoedd**

Pwynt Cyswllt

Einir Rh Davies

01286 679868

EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 16/11/21)

CYSAG

AELODAETH (7)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Paul John Rowlinson
E. Selwyn Griffiths

Menna Baines

Judith Mary Humphreys

Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

Richard Medwyn Hughes

Dewi Wyn Roberts

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr Elwyn Jones a Simon Glyn

Cristnogion a Chrefyddau Eraill

Dashu (Scott Smith)
Disgwyl Enwebiad
Disgwyl Enwebiad

Gwawr Maelor Williams
Eirian Bradley Roberts
Eurfryn Davies

Bwdhaeth
Yr Eglwys Fethodistaidd
Yr Annibynnwyr
Yr Eglwys yng Nghymru
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Yr Eglwys Gatholig
Undeb Bedyddwyr Cymru

Athrawon

Miriam A. Amlyn
Cathryn Davey
Heledd Jones
Disgwyl Enwebiad

NAS/UWT
UCAC
NUT
ATL

Aelodau Cyfetholedig

Edward Parri-Jones

Dyneiddiwr

R H A G L E N

1. GWEDDI

Myfyrdod distaw neu weddi

2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

4. MATERION BRYN

I nodi unrhyw faterion sydd o frys ym marn y Cadeirydd ar gyfer ystyriaeth

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2021 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir

6. DIWEDDARIAD AR Y CANLLAWIAU AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG O FEWN Y CWRIWLWM NEWYDD

I dderbyn cyflwyniad ar yr uchod

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2020-2021

I dderbyn diweddariad ar yr uchod

8. MATERION CCYSAGAU

9 - 45

I dderbyn Adroddiad Blynyddol y CCYSAGAU ar gyfer 2020-2021
I dderbyn Adroddiad Blynyddol Trysorydd y CCYSAGAU ar gyfer 2020-2021, gan gynnwys y Datganiad o Gyfrifon
I dderbyn Cofnodion y cyfarfod CCYSAGAU a gynhaliwyd 16 Mehefin 2021
I dderbyn Diweddariad o Gyfarfod yr Hydref o CCYSAGAU a gynhaliwyd 23 Tachwedd 2021

C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 08/06/21

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Paul J. Rowlinson (Cadeirydd)

Aelodau Cyngor Gwynedd: Y Cynghorwyr Menna Baines, Selwyn E Griffiths, Judith Humphreys, Dewi W Roberts

Cristnogion a Chrefyddau Eraill: Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Anest G Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Gwawr Maelor Williams (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

Athrawon: Miriam Amlyn (NASUWT)

Swyddogion: Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau), Buddug Mair Huws (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Gynorthwyol a Chlerc CYSAG), Sion Huws (Adran Gyfreithiol), Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Yn Bresennol ar Gyfer Eitem 8: Dr Gareth Evans Jones, Darlithydd Astudiaethau Crefyddol, Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

Cadarnhawyd, er bod nifer o ymddiheuriadau wedi dod i law, bod cworwm.

1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Selwyn E Griffiths.

2. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Paul Rowlinson yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.

3. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Menna Baines yn Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.

4. YMDDIHEURIADAU

Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Dashu (Bwdiaeth), Cathryn Davey (UCAC), Garem Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg), Heledd Jones (NEU)

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

6. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

7. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Bu i'r Cadeirydd gadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2021 fel rhai cywir, a'u llofnodi.

8. DYFODOL CANOLFAN ADDYSG GREFYDDOL PRIFYSGOL BANGOR

Croesawyd Dr Gareth Evans Jones, Darlithydd Astudiaethau Crefyddol, Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd fwriad yr Adran, mewn trafodaethau gyda'r Llyfrgell, i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Ganolfan, gan ei huno gyda phrosiect newydd o'r enw 'Ail-gysylltu'. Cadarnhaodd fanteision bod yn perthyn i Adran draws-ddisgyblaethol sydd yn annog rhannu modiwlau.

Manylodd am y prosiect fydd yn creu adnodd newydd ysgrifenedig i athrawon Addysg Grefyddol Lefel A. Nododd bod y Brifysgol yn y broses o drafod llwybrau newydd Addysg Grefyddol oddi fewn i'r cwrs gradd, gan annog myfyrwyr, fel rhan o'r cwrs i ddilyn llwybr Addysg Grefyddol. Ategwyd y sylw drwy gadarnhau bod yr Adran Addysg hefyd yn cynnig modiwl newydd addysg i gynnwys Addysg Grefyddol sydd yn rhoi blas ar ddysgu ac addysgu.

Nododd y Pwyllgor eu bod yn falch o glywed am y llwybr Addysg Grefyddol, yn enwedig yn sgil y datblygiadau gyda'r cwricwlwm newydd, a'r angen i sicrhau bod athrawon cymwys sydd â gwybodaeth arbenigol am Addysg Grefyddol.

Gofynnwyd tybed fyddai modd cynnwys deunydd ar gyfer TGAU, gan y teimlwyd mai ar y lefel hon oedd eisiau dal diddordeb y disgyblion, gan efallai bontio wedyn i ddangos y cyfleoedd. Nodwyd ei fod yn gyfle gwych nawr i wneud hyn, er mai y targed oedd disgyblion Lefel A.

Amlygwyd yr heriau megis cysylltu gydag ysgolion yn ystod y cyfnod diweddar. Nododd hefyd y diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg, ond bod y broblem hon wedi ei goresgyn drwy addasu deunyddiau Saesneg yn hytrach na dim ond eu cyfieithu, gan ychwanegu gwedd Gymreig iddynt.

O ran Safon Uwch yn Arfon yn benodol, gan fod y niferoedd sydd yn dewis gwneud y pwnc yn isel, onid dysgu o bell fyddai un ateb? Cadarnhawyd y byddai yr Adran yn gallu bod o gymorth gyda hyn gan mai cydweithio yw y flaenoriaeth. Ategwyd y sylw gan nodi bod modiwl blas ar addysgu yn cael ei gynnig gan yr Adran Addysg, gyda lle i brosiect rhyngweithiol.

Cadarnhawyd y bydd y newyddlen Newyddion Addysg Grefyddol yn cael ei hatgyfodi a'i rhyddhau cyn diwedd y flwyddyn.

PENDERFYNWYD croesawu y diweddariad gan Yr Athro G Evans Jones a chytuno i gydweithio pellach rhwng CYSAG Gwynedd, Adran Addysg Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG

Cyflwynwyd yr adroddiad drafft ar gyfer y cyfnod Medi 2019 - Awst 2020 i'r Panel. Codwyd pryder gan yr awdur bod cefnogaeth GwE wedi dod i ben erbyn hyn, ac o ganlyniad bod y trosolwg a'r dadansoddi arbenigedd pwnc wedi eu colli yn yr Adroddiad. Nodwyd mai sgil effaith arall o golli y gefnogaeth oedd nad oedd y Cynllun Gweithredu mor gynhwysfawr â'r blynyddoedd a fu.

Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd y sylwadau, gan gytuno mabwysiadu yr adroddiad ar gyfer y cyfnod Medi 2019 i Awst 2020.

10. CYFETHOL DISGYBLION AR BWYLLGOR CYSAG

Atgoffwyd pawb bod y mater uchod wedi ei drafod rai blynyddoedd yn ôl, ac mai un o'r anawsterau ar y pryd oedd materion ymarferol yn ymwneud â gallu disgyblion i deithio i Gaernarfon i fynychu cyfarfodydd. Nodwyd na fyddai teithio yn broblem erbyn hyn gan fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol.

Cafwyd trafodaeth a nodwyd pryderon megis cyfrinachedd adroddiadau a tybed fyddai yn addas i ddisgybl fod yn rhan o'r math hwn o drafodaeth? Nodwyd, fodd bynnag, bod cyfarfodydd CYSAG yn gyfarfodydd cyhoeddus. Nodwyd bod yn rhaid cael pwrpas clir i'r disgybl fod yn bresennol yn y cyfarfod, gyda rôl a chyfraniad clir i'w wneud. Cwestiynwyd beth fyddai y sefyllfa o ran angen y disgybl i ddatgan buddiant?

Awgrymwyd y gellid ystyried derbyn mewnbwn gan athro a disgybl wrth i athro sôn am ddarn arbennig o waith a'r plentyn yn ei drafod o ogwydd y disgybl? Atgoffwyd y Pwyllgor bod y mater o gynnwys disgyblion ym mhwyllgorau y Cyngor wedi ei drafod mewn pwyllgorau eraill. Teimlodd y Pwyllgor, o ganlyniad i newid mewn rheolau pleidleisio ar gyfer pobl ifanc, a'r gwaith o hybu yr ifanc i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, y byddai yn ddefnyddiol i'r Cadeirydd wneud ymholiadau pellach. Cwestiynwyd efallai y byddai yn well trafod gyda phobl ifanc yn y lle cyntaf gan egluro beth yw CYSAG a holi tybed a fyddent yn teimlo bod rôl ganddynt? Nodwyd ei bod yn bwysig bod yn glir beth fyddai rôl y disgybl yn y cyfarfod. Cadarnhawyd y byddai angen ystyried sut i ddewis plant o ran oedran, lleoliad, faint o blant, ayyb.

Penderfynwyd, yn ddarostyngedig ar y sylwadau a ddaw i law yn dilyn sgwrs rhwng y Cadeirydd a'r Swyddog priodol, derbyn y cynnig i lunio gweithgor i edrych ar yr holl opsiynau o ran cyfethol disgyblion ar bwylgor CYSAG. Cytunwyd y byddai angen adrodd yn ôl i'r Pwyllgor llawn maes o law o dan gadeiryddiaeth y Cyngorydd Dewi W Roberts, gyda Miriam Amlyn, Anest G Frazer a Gwawr M Williams yn aelodau.

11. YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR "CANLLAWIAU YNGHYLCH CYNLLUNIO A GWEITHREDU ELFEN ORFODOL CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG"

Derbyniwyd yr adroddiad, gan nodi y bydd angen trefnu cynhadledd rhwng Rhagfyr 2021 a'r Haf 2022 fel mae pethau yn sefyllfa ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaeth a nodwyd y gobaith na fydd unrhyw newid cyn 2023 er mwyn ei wneud yn iawn, gan y bydd hon yn ffordd wahanol o roi gwersi. Cadarnhawyd bod yr Undebau wedi ymgynghori llawer gan gynnal llawer o drafodaethau. Nodwyd bod y ddogfen yn edrych yn dda, ond bod pryder o ran faint o oriau sydd wedi eu clustnodi i Addysg Grefyddol, a'r angen i weithio yn galed i gadw statws Addysg Grefyddol gan ei fod wedi bod yn bwnc unigol hyd yn hyn. Cadarnhawyd bod ESTYN eisoes wedi bod yn holi sut y bwriedir cadw arbenigedd y pwnc.

Penderfynwyd dangos bodlonrwydd gyda chynnwys yr ymgynghoriad, gan nodi bod sgiliau pwnc Addysg Grefyddol yn allweddol o ran yr elfen arbenigol wrth addysgu'r cwricwlwm newydd. Nodwyd bod angen i Lywodraeth Cymru oedi am o leiaf blwyddyn cyn cyflwyno y cwricwlwm newydd, er mwyn i ysgolion gael cyfle i ail-sefydlogi.

12. MATERION CCYSAGAU

- a) Derbyniwyd Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2021
- b) Cefnogwyd Enwebiad Kathy Riddick i'r Pwyllgor Gwaith
- c) Nodwyd Dyddiad y Cyfarfod Nesaf a chynigiwyd enwau Eurfryn Davies, Y Cynghorydd Dewi W Roberts a'r Cynghorydd Paul Rowlinson fel Cynrychiolaeth i'r CCYSAGAU y tro hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 p.m. a daeth i ben am 3.40 p.m.

CADEIRYDD

Eitem 8

Mae fersiwn Gymraeg

Adroddiad Blynyddol y CCYSAGAU ar gyfer 2020-2021
yn cychwyn ar dudalen 9

A

Cofnodion y cyfarfod CCYSAGAU a gynhaliwyd 16 Mehefin 2021
yn cychwyn ar dudalen 22

Adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas 2020-2021

Parhaodd eleni i fod yn flwyddyn anodd wrth i'r pandemig effeithio arnom ni i gyd mewn gwahanol ffyrdd. Pan gynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol diwethaf ar 7 Hydref drwy TEAMS, roeddem i gyd yn gobeithio na fyddai mwy o gyfnodau clo ac y byddem yn dechrau dod dros y pandemig; ond fel y gwyddom bellach, nid felly y bu. Rydym wedi parhau â chyfnodau clo a chyfyngiadau, gyda phob cyfarfod yn digwydd drwy TEAMS a llwyfannau digidol eraill. Rydym yn dal i deimlo effaith y pandemig, ond mae gwaith CCYSAGauC wedi mynd yn ei flaen yn ddi-dor, diolch i ymroddiad aelodau a swyddogion ein pwyllgor gwaith. Buont yn gweithio'n ddiflino i gadw datblygiad AG ar feddwl addysgwyr a Llywodraeth Cymru wrth iddynt barhau i ddatblygu'r cwricwlwm i Gymru.

1. **Dim ond dwywaith y cyfarfu'r Gymdeithas eleni**, gan i'n Cyfarfod Blynyddol gael ei ohirio tan 7 Hydref: Cafodd ein cyfarfod gwanwyn ar 23 Mawrth ei letya gan CYSAG Caerffili drwy TEAMS. Bydd ein cyfarfod Haf, yn cael ei gynnal ar 16 Mehefin drwy TEAMS gyda CYSAG Powys yn croesawu. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus CYSAGau yn lletya'r cyfarfodydd hyn.
2. **Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith ar dri achlysur:** 14 Hydref, 26 Ionawr ac 19 Mai, pob un drwy TEAMS. Ar ben hynny, cyfarfu'r aelodau mewn cyfarfodydd ychwanegol i ystyried materion a datblygiadau penodol o fewn y cwricwlwm. Cafodd y Pwyllgor Gwaith raglen lawn drwy gydol y flwyddyn a oedd yn cynnwys:
 - a. Ystyried ac ymateb i'r datblygiadau oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag AG o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Cyfarfu cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC â chydweithwyr Llywodraeth Cymru ac eraill sawl gwaith yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cyfarfod gyda Rudi Lockhart, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr. Bu cydweithwyr Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC hefyd, gan roi diweddariadau ar gynnydd.
 - b. Cyfarfodydd gyda Kevin Palmer (LIC) a Swyddogion Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC ar sawl achlysur i drafod sut a phryd y bydd pecyn dysgu proffesiynol yn cael ei ariannu a'i ddatblygu. Arweiniodd hyn at gynnig ffurfiol a fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn sy'n dod.
 - c. Aeth cynrychiolwyr i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ran CCYSAGauC i drafod CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru a Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

- d. Paratoi papur briffio i Lywodraeth Cymru ym Medi 2020. Nod y papur oedd gwneud argymhellion i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau priodol i Gynadleddau'r Maes Llafur Cytunedig, CYSAGau ac awdurdodau lleol, ar ddatblygu, argymhell a mabwysiadau'r Maes Llafur Cytunedig cyntaf i AG/CGM.
 - e. Paratowyd papur gan Edward Evans a oedd yn cofnodi pob agwedd o gylchlythyr 10/94 a fyddai'n dal i fod yn berthnasol yn dilyn bil y cwricwlwm newydd.
 - f. Ymateb i'r ymgynghoriad gan Gymwysterau Cymru ym mis Mawrth 2021, ar y cynigion ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd i fyfyrwyr y dyfodol.
 - g. Cynnal perthynas CCYSAGauC gyda Chyngor Addysg Grefyddol Cyngor a Lloegr drwy gyfarfodydd gyda'r Dirprwy Gadeirydd, Dave Francis a chynrychiolwyr eraill.
 - h. Datblygu gwefan newydd CCYSAGauC.
 - i. Adolygu'r llawlyfrau sy'n bodoli'n barod megis 'Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol'; a dogfennau ar Addoli ar y Cyd.
 - j. Diweddariadau rheolaidd ar y canllawiau CGM drwy ymateb i'r ymgynghoriad ar y ddogfen erbyn 16 Gorffennaf 2021.
 - k. Ystyried y newidiadau i arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch Haf 2021 o ganlyniad i'r Coronafeirws a'r amrywiol gyfnodau clo. Sicrhaodd y pwyllgor gwaith eu bod yn deall y sefyllfa er mwyn gallu helpu a chefnogi'r athrawon yn eu Hawdurdodau Lleol.
 - l. Cysylltu â CBAC ynghylch ffioedd cyrsiau byr, a oedd yn golygu ffi taliad hwyr i bob canolfan os oeddent yn dymuno cofrestru myfyriwr i'r TGAU llawn yn dilyn canlyniadau da yn y cwrs byr. Roedd ymateb CBAC yn hynod o gadarnhaol a llwyddwyd i gael gwared ar y broblem hon.
 - m. Cafwyd trafodaethau ynglŷn â chynhadledd CCYSAGauC a sefydlwyd gweithgor bach i drafod a datblygu hyn ymhellach. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn disgwyl nes bod yr ymgynghoriad ar ganllawiau CGM a'r trafodaethau ar y pecyn Dysgu Proffesiynol wedi'u cwblhau cyn parhau i ddatblygu'r syniad hwn.
- 3. Cyfarfodydd Swyddogion y Pwyllgor Gwaith.** Er mai dim ond tri chyfarfod Pwyllgor Gwaith a gafwyd yn ystod y flwyddyn, bu nifer o gyfarfodydd rhwng y Swyddogion Gweithredol. Cynhaliwyd y canlynol gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

22 Hydref 2020

3 Tachwedd 2020 – gyda Kevin Palmer ynglŷn â Dysgu Proffesiynol

17 Rhagfyr 2020

8 Ionawr 2021 – gyda Kevin Palmer ynglŷn â Dysgu Proffesiynol

21 Ebrill 2021

Ebrill 2021 – gyda Kevin Palmer ynglŷn â Dysgu Proffesiynol

Cafwyd hefyd nifer o gyfarfodydd rhwng Swyddogion er mwyn llenwi gwahanol Ddogfennau Ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru, ayb.

4. **Cyfrifon:** Adroddiad y Trysorydd 2019-2020. Cyflwynwyd datganiad o gyfrifon ac adroddiad yn esbonio'r wybodaeth. Nodwyd ei bod yn ymddangos fod llai o incwm eleni gan nad oedd 5 CYSAG wedi gwneud taliadau yn ystod y flwyddyn gyfrifo. Fodd bynnag, derbyniwyd y taliadau hyn ers hynny. Datganwyd fod elw ar y flwyddyn flaenorol a bod y sefyllfa ariannol yn iach iawn. Nodwyd fod treuliau cyfarfodydd wedi gostwng o'u cymharu â'r llynedd. Costiodd y wefan yn ddrutach na'r disgwyl. Nodwyd hefyd y bu cynnydd mewn talu athrawon llanw oherwydd bod yr Ysgrifennydd Cydlyn yn athrawes mewn swydd. Penderfynwyd yn flaenorol mewn Cyfarfod Blynyddol y byddai CCYSAGauC yn talu i lanw dros athrawon sy'n dymuno gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith. Cynigiwyd cynnydd i'r tanysgrifiad blynyddol yn unol â chwyddiant o 2% i £470 a chytunwyd ar hyn.
5. **Aelodau newydd o'r Pwyllgor Gwaith:** Yng Nghyfarfod Blynyddol Hydref 2020 etholwyd dau aelod i'r pwyllgor gwaith am y cyfnod 2020-2023: Phil Lord (Sir Ddinbych) a John Meredith (Powys). Yn ychwanegol, etholwyd y Parchedig. Dr. Tania Ap Sion yn Is-gadeirydd.
6. **Cyflwyniadau PYCAG a CCYSAGauC:** Gan nad oedd 'cyfarfodydd corfforol' cadwyd cyflwyniadau PYCAG i'r isafswm er mwyn canolbwyntio ar y blaenoriaethau mwyaf taer.

Yng nghyfarfod Caerffili ar 23 Mawrth, cafwyd cyflwyniad gan Paula Webber ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), lle'r amlinellodd y sefyllfa oedd ohoni gyda'r Bil, y prif newidiadau mewn deddfwriaeth a fydd yn effeithio ar CGM, a'r camau nesaf i GYSAGau.

Bydd cyfarfod Powys ar 26 Mehefin yn cael cyflwyniad a baratowyd gan Libby Jones a Tania ap Sion ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y canllawiau Drafft i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, cyn trafodaeth ar ymateb CCYSAGau i'r canllawiau.

Report of the activities of the Association 2020-2021

This year has continued to be difficult as the pandemic affected us all in various ways. When we held our last AGM on the 7th of October via TEAMS, we all hoped that there would be no more lockdowns and we would begin recovering from the pandemic; but as we well know, this was not the case. We have continued with lockdowns and restrictions, with all meetings taking place via TEAMS and other digital platforms. The impact of the pandemic continues to be felt, but the work of WASACRE has carried on at a pace and this is due to the commitment of our executive members and officers, who have worked tirelessly to keep the development of RE on the minds of educators and Welsh Government as they continued to develop the curriculum for Wales.

7. **This year the Association met only on two occasions**, as our AGM was delayed until the 7th of October: Our spring meeting on the 23rd of March was hosted by Caerphilly SACRE through TEAMS. Our Summer meeting, to be held on the 16th Of June through TEAMS with Powys as the host SACRE. We are grateful for the continued support of SACRE's with their hosting of these meetings.

8. **The Executive Committee met on three occasions**: 14th of October, 26th of January and the 19th of May, all of which took place on-line through TEAMS. In addition, members met in extra meetings to consider specific issues and developments within the curriculum. The Executive Committee had a full agenda throughout the year that included:
 - a. Considering and responding to the developments relating directly to RE within the Curriculum for Wales. Representatives from the WASACRE Executive Committee met with Welsh Government colleagues and others on a number of occasions throughout the year, including a meeting with Rudi Lockhart, Chief Executive Officer of the Religious Education Council for England and Wales. Welsh Government colleagues have also attended WASACRE Executive meetings, and they have given updates on progress.
 - b. Meetings with Kevin Palmer (WG) and Officers of the WASACRE Executive on numerous occasions to discuss how and when a professional learning package will be funded and developed. This has progressed to a focused proposal which will be further developed in the coming year.
 - c. Representatives attended the Children, Young People and Education Committee meeting on behalf of WASACRE to discuss RVE within the Curriculum for Wales and the Curriculum and Assessment (Wales) Bill.
 - d. Preparation of a briefing paper for Welsh Government September 2020. The aim of the paper was to make recommendations to support Welsh Government in providing appropriate guidance for ASCs, SACREs and local authorities (LAs), on the development, recommendation and adoption the first RE/RVE Agreed Syllabus.
 - e. Preparation of a paper by Edward Evans recording all aspects of circular 10/94 that would still be relevant following the new curriculum bill.

- f. Responding to the consultation by qualifications Wales in March 2021, on the proposals for the new GCSE qualifications for future students.
- g. Maintaining WASACRE's relationship with the RE Council for England and Wales through meetings with Deputy Chair, Dave Francis and other representatives.
- h. The development of the new WASACRE Website.
- i. Revising existing handbooks such as 'So you are joining your local SACRE;' and Collective worship documentation.
- j. Regular Updates of the RVE guidance through to responding to the consultation on the document by the 16th of July 2021.
- k. Considering amendments to Summer 2021 GCSE, AS and A Level examinations due to Coronavirus and various lockdowns. The executive ensured clarity of understanding to assist and support the teachers within their Local Authorities.
- l. Contact with WJEC regarding short course fees, which meant a late payment fee for all centres if they wished to enter a student for the full GCSE following good short course results. WJEC response was extremely positive and resulted in the removal of this issue.
- m. Discussions regarding a WASACRE conference took place and a small working group was set up to discuss and develop this further. At present the group is waiting for the completion of the consultation on the RVE guidance and the discussions on the Professional Learning package prior to continuing with the development of the concept.

9. Executive Officers meetings. Although there were only three Executive Committee meetings in the course of the year there have been a number of Executive Officer meetings. The following have been with representatives of Welsh Government as follows:

22 October 2020

3 November 2020 – with Kevin Palmer regarding Professional Learning

17 December 2020

8 January 2021 – with Kevin Palmer regarding Professional Learning

21 April 2021

April 2021 – with Kevin Palmer regarding Professional Learning

There has also been a number of meetings between Officers in order to complete various WG Consultation Documents, etc.

10. Accounts: The Treasurer's report for 2019-2020. A statement of accounts and a report explaining the information was presented. It was noted that there appears to be less income this year due to 5 SACREs having not made payments during the accounting year. However, these payments had since been received. A profit was declared on the previous year and that the financial position is very healthy. It was

noted that meeting expenses are down on last year. The website has incurred a greater expense as expected. It was also noted there was an increase in payment of supply cover due to the Co-ordinator Secretary being a serving teacher. It had been previously decided in an AGM that WASACRE should pay for the supply cover of teachers who wish to serve on the Executive Committee. An increase to the yearly subscription in line with inflation of 2% to £470 was proposed and agreed to.

11. New members of the Executive Committee: At the Autumn AGM 2020 two members were elected to the executive committee for the period of 2020-2023: Phil Lord (Denbighshire) and John Meredith (Powys). Additionally, Revd. Dr. Tania Ap Sion was elected as Vice-chair.

12. NAPfRE and WASACRE presentations: As there were no 'physical meetings' NAPfRE presentations have been kept to a minimum and focused on the most immediate priority.

The Caerphilly meeting on the 23rd of March received a presentation from Paula Webber on the Curriculum and Assessment (Wales) Bill, where she outlined the current situation with the Bill, the main changes in legislation which will affect RVE, and the next steps for SACRE's.

The Powys meeting on the 26th of June will receive a presentation prepared by Libby Jones and Tania ap Sion on the Welsh Government Consultation of the Draft Religion, Values and Ethics guidance, prior to a discussion on WASACRE's response to the guidance.

CYMDEITHAS CCYSAGau CYMRU

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL – 16 MEHEFIN, 2021

ADRODDIAD GAN:Y Trysorydd

PWNC: Adroddiad am Flwyddyn Ariannol 2020/2021

ADRODDIAD AR GYFER: Gwybodaeth a Phenderfyniad

DATGANIAD O GYFRIFON 2020/2021

Ynghlwm fel Atodiad i'r adroddiad hwn y mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021. Bydd yr aelodau'n nodi, fod yr incwm, yn ystod y flwyddyn, wedi bod yn uwch na'r gwariant o £6,520.16, o'i gymharu â £649.01 yn 2019/2020. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd tanysgrifiadau gan 16 CYSAG wedi'u derbyn, ac erbyn hyn derbyniwyd y tanysgrifiadau gan y CYSAGau eraill. Roedd y broblem o daliadau hwyr eleni yn deillio o'r angen i gael Rhifau Archeb Brynu mewn rhai awdurdodau cyn y gellid talu anfonebau a'r ffaith fod Cyfarfod Blynyddol y llynedd wedi'i gynnal ar 7 Hydref 2020, yn hytrach nag ym Mehefin neu Orffennaf oherwydd Pandemig Covid-19. Roedd hyn yn golygu na anfonwyd yr anfonebau tan yn llawer hwyrach nag arfer, oedd yn rhai llai o amser i Awdurdodau Lleol dalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n bleser adrodd fod tanysgrifiadau, unwaith eto, wedi cael eu talu gan bob CYSAG. Mae'n dda gallu adrodd fod incwm yn fwy na gwariant eleni eto a gan swm sylweddol. Rhoddir gwybodaeth bellach am y rhesymau dros y cynnydd ar y llynedd isod. Dechreuodd y flwyddyn ariannol gyda gweddill o £31,259.73 a daeth i ben â gweddill o £37,779.89. Mae cyllid CCYSAGauC, felly, yn dal i fod mewn cyflwr iach ac mae lefel y cyllid sydd ar gael i CCYSAGauC, i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig, yn galonogol.

a) Derbynebau

Fel yn y blynyddoedd cynt, prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2019/2020 oedd y tanysgrifiad blynyddol a delir gan aelod-GYSAGau. Bydd aelodau'n cofio, fod penderfyniad wedi'i wneud yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGau 2001, i godi lefel tanysgrifiadau yn ôl lefel chwyddiant yn flynyddol. Y tanysgrifiad blynyddol, felly, yn 2020/2021 oedd £470.00 sydd wedi arwain at incwm o £7,520.00. Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli'r 16 tanysgrifiad, a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ac mae'n bleser adrodd bod gweddill tanysgrifiadau CYSAGau wedi'u talu bellach. Felly, gallaf adrodd fod pob tanysgrifiad am 2020/2021, wedi eu derbyn. Roedd y derbyniadau'n cynnwys hefyd taliad hwyr o £2,305.00, sy'n cynrychioli 5 tanysgrifiad o £461.00 yn mynd yn ôl i flwyddyn ariannol 2019/2020.

Y ffynhonnell incwm rheolaidd arall i CCYSAGauC bob blwyddyn oedd llog y banc, a daeth hwn i £2.98 yn 2020/2021, gostyngiad o £8.15 ar £11.13, y swm a dderbyniwyd yn 2019/2020. Bu cwmp yn llog y Banc ac, yn ystod y flwyddyn, disgynnodd y taliadau llog chwarterol o £2.56 yn y chwarter cyntaf i

£0.14 yn y tri chwarter arall. Mae'n amlwg, fel y nodwyd o'r blaen, y bydd cryn dipyn o amser cyn y gwelir incwm sylweddol yn dod trwy log y banc.

b) **Gwariant**

Bu 2020/2021 yn flwyddyn ryfedd gyda gwariant is nag arfer. Eleni nid oedd taliadau'n gysylltiedig â chostau teithio a llety swyddogion gan i'r cyfarfodydd i gyd fod yn rhai rhithwir a, gan mwyaf fe'i cynhaliwyd drwy blatfform Teams. Ar ben hynny, ni chafwyd ceisiadau i ryddhau staff i fynychu cyfarfodydd gan iddynt gael eu cynnal ar amseroedd a oedd yn gyfleus i'r aelodau eu mynychu. Ni chafwyd chwaith geisiadau i dalu treuliau am fynychu cynadleddau a digwyddiadau tebyg eraill. Bydd yr aelodau'n sylwi nad oes tâl cydnabyddiaeth yn y cyfrifon i swydd yr Ysgrifennydd Cydlynu gan i'r taliad hwn ddod y tu allan i'r flwyddyn ariannol oherwydd y pandemig. Gallaf sicrhau'r aelodau fod y tâl cydnabyddiaeth o £1,500 wedi'i dalu ar gyfer 2020/2021 a bydd yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2021/2022. Rydym wedi symud i dri thaliad cyfartal bob tymor yn hytrach nag un cyfandaliad wrth dalu cydnabyddiaethau yn y dyfodol.

Mae manylion y gwariant yng nghyfrifon 2020/2021 fel a ganlyn:-

Daeth y gost o alw cyfarfodydd i £823.16 ac roedd hyn yn gysylltiedig yn unig â chyfieithu dogfennau. Nid oedd costau eraill wrth gynnal cyfarfodydd tymhorol CCYSAGauC a chyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith gan i'r rhain i gyd gael eu cynnal yn rhithwir drwy Teams. Roedd hyn ychydig yn is na'r gwariant ar yr eitem yma yn 2019/2020 a ddaeth i £986.89.

Talwyd y swm o £24.30 i letya gwefan bresennol CCYSAGauC a'r swm o £300.00 am gynnal a chadw'r wefan. Mae hyn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Gorffennaf, 2019, i 30 Mehefin, 2020. Mae CCYSAGauC wedi comisiynu adeiladu gwefan newydd a fydd yn fwy addas i anghenion presennol a pharhaus y Gymdeithas, ac, o fewn y flwyddyn ariannol hon, talwyd blaendal o 30%, sef £330.00 tuag at y gwaith hwn. Bydd yr aelodau'n cytuno fod gwefan o ansawdd uchel yn adnodd ardderchog ac yn chwarae rhan werthfawr o ran codi proffil CCYSAGauC yn ogystal â bod yn ffynhonnell gwybodaeth mewn perthynas ag Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Rhagwelir y bydd y wefan newydd yn darparu cymorth ardderchog i CCYSAGauC a bydd yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ar Addysg Grefyddol, a'r Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd, yn ogystal ag Addoli ar y Cyd i GYSAGau, athrawon ac ymarferwyr proffesiynol eraill.

Bydd yr aelodau'n ymwybodol fod trefniadau ysgrifenyddol CCYSAGauC wedi aros yr un fath. Parhaodd swydd yr Ysgrifennydd Cydlynu gyda'r dasg o oruchwylio'r swyddogaeth ysgrifenyddol ond heb ymgymryd â'r ystod lawn o weithgareddau ysgrifenyddol. Mae'r swydd yn dal i ddenu tâl cydnabyddiaeth o £1,500.00 ac, fel y nodwyd uchod, gwnaed y taliad hwn, y tu allan i'r flwyddyn ariannol bresennol. Cadwyd y costau ysgrifenyddol i'r lleiafswm drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig ac ni wnaed hawliadau am unrhyw dreuliau ysgrifenyddol yn ystod y flwyddyn. Parhawyd hefyd â phenodiad yr Ysgrifennydd Cofnodion ac mae'r swydd hon hefyd yn denu tâl

cydnabyddiaeth o £1,500.00 a dalwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Telir treuliau i'r swydd hon hefyd ond, yn ystod y flwyddyn, ni hawliwyd unrhyw dreuliau. Mae CCYSAGauC yn ffodus yn gallu sicrhau gwasanaethau Ysgrifennydd Cofnodion sy'n meddu ar wybodaeth eang o Addysg Grefyddol, Addoli ar y Cyd a materion cysylltiedig, ac sy'n gallu cyflawni'r rôl hon yn effeithiol iawn.

Daeth Treuliau'r Trysorydd i £32.36, o'i gymharu â £39.88 yn 2019/2020. Roedd y rhain yn bennaf gysylltiedig â chostio postio a deunydd ysgrifennu.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd cyfanswm o £298.00 ar Danysgrifiadau Aelodaeth sy'n debyg i £299.00, sef y swm a wariwyd yn 2019/2020. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:-

- Cyngor AG 2019/2020 - £99.00
- Cyngor AG 2020/2021 - £99.00
- Y Rhwydwaith Rhyng-ffydd 2021 - £100.00

Gwahoddir yr aelodau i dderbyn a mabwysiadu'r datganiad o gyfrifon ynghlwm.

TANYSGRIFIADAU BLYNYDDOL 2021/2022

Wrth ystyried tanysgrifiad blynyddol addas i bob CYSAG i fod yn aelod o CCYSAGauC yn ystod blwyddyn ariannol 2021/2022, bydd aelodau'n cofio, fod penderfyniad wedi'i wneud yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGau 2001, i godi lefel tanysgrifiadau yn ôl lefel chwyddiant yn flynyddol.

Mae'n bwysig fod CCYSAGauC yn dilyn yr arfer hwn er mwyn sicrhau fod adnoddau digonol ar gael i dalu am gostau parhaus gweithgareddau CCYSAGauC, yn cynnwys treuliau cyfarfodydd, costau ysgrifenyddol, treuliau swyddogion, taliadau cydnabyddiaeth swyddogion a thanysgrifiadau. Er na wynebwyd rhai o'r costau hyn ym mlwyddyn ariannol 2020/2021, maent eisoes yn digwydd ym mlwyddyn ariannol 2021/2022. Ar ben hynny, mae angen i'r Gymdeithas feddu ar ddigon o adnoddau i dalu costau digwyddiadau Cymru Gyfan, megis cynadleddau cenedlaethol, a'i galluogi i gymryd rhan mewn cynlluniau eraill sy'n cefnogi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ynghyd ag Addoli ar y Cyd ar draws Cymru, sy'n cynnwys darparu hyfforddiant pellach a pharatoi cyhoeddiadau. Er bod cyllid CCYSAGauC mewn cyflwr iach ar hyn o bryd, mae'n bwysig fod gweddill sylweddol yn cael ei gadw os bydd CCYSAGauC yn gallu bod yn hyderus i drefnu digwyddiadau cenedlaethol pellach ac ymgymryd â mwy o brosiectau.

Yng ngoleuni'r uchod a'r penderfyniad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2001, fod y tanysgrifiad i CCYSAGauC yn cael ei gynyddu yn unol â chwyddiant,

ARGYMHELLIR fod y tanysgrifiad blynyddol, i bob CYSAG i fod yn aelod o CCYSAGauC yn ystod blwyddyn ariannol 2021/2022, yn cael ei osod ar £480.00, sy'n cynrychioli cynnydd o 2% ar danysgrifiad 2020/2021.

TALU TREULIAU

Atgoffir yr aelodau y cytunwyd ar y trefniadau canlynol o ran treuliau yng Nghyfarfod Blynyddol CCYSAGauC 2020 ar gyfer 2020/2021, neu y cytunwyd arnynt wedyn: -

- talu 45 ceiniog y filltir i swyddogion sy'n ymgymryd â gwaith ar ran CCYSAGauC pan nad ydynt yn gallu hawlio hynny gan eu CYSAG lleol ac ad-dalu ar yr un lefel i siaradwyr sy'n cyfrannu at gyfarfodydd CCYSAGauC;
- ad-dalu union gostau parcio, os oes rhai, i swyddogion, mewn cysylltiad ag ymgymryd â gwaith CCYSAGauC;
- pan ddefnyddir trafndiaeth gyhoeddus yn hytrach na char preifat, ad-dalu union gost y tocyn trê/bws hyd at lefel y pris safonol ar y ddealltwriaeth eu bod yn manteisio ar y tocynnau rhataf pryd bynnag y bo modd;
- ad-dalu costau cynhaliaeth rhesymol swyddogion CCYSAGauC a siaradwyr mewn cyfarfodydd CCYSAGauC;
- ad-dalu union gostau aros dros nos ar y ddealltwriaeth fod y costau hynny'n rhai rhesymol; a
- pan mae athrawon yn cael eu rhyddhau o'r ysgol i wneud cyflwyniadau yng nghyfarfodydd CCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn talu hyd at ddiwrnod am athro llanw. Os nad yw hyn yn ddigonol, dylid cysylltu â'r Trysorydd mewn digon o bryd, a bydd y Trysorydd yn cael disgrisiwn i gytuno ar lefel uwch o lanw mewn ymgynghoriad â naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.
- nid yw aelodau CYSAGau ac eraill sy'n mynychu prif gyfarfodydd CCYSAGauC yn gymwys i hawlio treuliau gan CCYSAGauC ond dylent hawlio gan eu CYSAG eu hunain neu'r corff y maent yn ei gynrychioli;
- bydd yr Ysgrifennydd Cydlyn yn derbyn tâl cydnabyddiaeth blynyddol o £1,500 yn ogystal â threuliau, a llety dros nos os oes angen;
- gall aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC hawlio treuliau gan CCYSAGauC am fynychu Cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith lle nad ydynt yn gallu hawlio treuliau o unrhyw le arall;
- mae aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC, sy'n athrawon mewn swydd, yn gymwys i hawlio costau llanw i'w galluogi i gael eu rhyddhau i fynychu cyfarfodydd. Dylai'r ysgol sy'n eu cyflogi anfon yr hawliad i'r Trysorydd a dylai ddangos y gwir gostau;
- er bod rhai aelodau'n gyffredin, mae PYCAG yn endid ar wahân ac ni all CCYSAGauC dalu am eu cyfarfodydd neu eu costau nhw;
- pan mae aelodau PYCAG yn gwneud gwaith ar ran CCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn cyfrannu at eu treuliau. Rhaid anfon ceisiadau, o flaen llaw, i'r Trysorydd, a fydd yn cael y disgrisiwn i'w hystyried mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is Gadeirydd;
- ar adegau, bydd CCYSAGauC, yn talu ffioedd i bobl fynychu cyfarfodydd neu ymgymryd â gwaith ar ddyddiau gwaith proffesiynol os cytunwyd ar hyn o flaen llaw. Rhaid anfon ceisiadau, o flaen llaw, i'r Trysorydd, a fydd yn cael y disgrisiwn i'w hystyried mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is Gadeirydd. Disgwylir y bydd tystiolaeth o'r gwaith a wnaed a gallai hyn fod yn bapur neu'n adroddiad yn dilyn y cyfarfod a fynychwyd.

ARGYMHELLIR fod y trefniadau uchod yn cael eu cymeradwyo ar gyfer 2021/2022.

CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU
DATGANIAD O GYFRIFON 2020/2021

DERBYNIADAU

Tanysgrifiadau blynyddol 2019/2020 (5 CYSAG ar 461.00 y CYSAG)	2305.00	
Tanysgrifiadau blynyddol 2020/2021 (16 CYSAG ar 470.00 y CYSAG)	7520.00	
Llog y Banc	2.98	
		9827.98
Cyfanswm Derbyniadau		

GWARIANT

Treuliau Cyfarfodydd:

Cyfieithu Dogfennau 823.16

Cymorth i wefan bresennol CYSAGau:

Lletya'r wefan 24.30

Cynnal a chadw'r wefan (1/7/19 – 30/6/20) 300.00

324.30

Adeiladu gwefan CCYSAGauC newydd (blaendal 30%) 330.00

Cydnabyddiaeth Ysgrifennydd y Cofnodon: 1500.00

Treuliau'r Trysorydd: 32.36

Tanysgrifiadau Aelodaeth:

Cyngor AG 2019/2020 99.00

Cyngor AG 2020/2021 99.00

Rhwydwaith Rhyng-ffydd 2021 100.00

298.00

Cyfanswm Gwariant 3307.82

Ychwaneger Gormod Derbyniadau dros Wariant 6520.16

9827.98

Y FANTOLEN AR 31/3/20

Balans 31/3/20 31259.73

YCHWANEGER

Gormod Derbyniadau dros Wariant 6520.16

Balans ar 31/3/21 **37779.89**

Cynrychiolir gan:

Balansau'r Banc ar 31/3/21:

Cyfrif Business Money Manager 5490.15

Cyfrif Cymunedol 32421.10

37911.25

LLAI

2 sic wedi'u codi a heb eu cyflwyno ar 31/3/21

99.00

32.36

131.36

37779.89

Archwiliwyd a chafwyd yn gywir:

Llofnodwyd:B.M.Gough.....

Dyddiad: ...13/6/21...

Yn bresennol

<p>Ynys Môn Rheinallt Thomas (RT) Gwyneth Mai Hughes (GH) Dylan Rees (DR) Christopher Thomas (CT)</p> <p>Blaenau Gwent Paula Webber (PW) Kathy Riddick (KW) Chris Abbas (CA)</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr Angela Hill (AH) Alice Parry (AP) Lucy Grant (LG)</p> <p>Caerffili Paula Webber (PW) Janet Jones (JJ) John Taylor (JT)</p> <p>Caerdydd</p> <p>Sir Gaerfyrddin Kimberley Perry (KP) Alex Roe (AR) Aled Jones (AJ) Helen Gibbon (HG)</p> <p>Ceredigion Keith Evans (KE) Mary Davies (MD) Joyce Howells (JH)</p>	<p>Conwy Phil Lord (PL)</p> <p>Sir Ddinbych Phil Lord (PL)</p> <p>Sir y Fflint Vicky Barlow (VB) Janet Axworthy (JA) Dave Mackie (DM) Lyn Oakes (LO)</p> <p>Gwynedd Dewi Roberts (DR) Paul Rowlinson (PR) Eurfryn Davies (ED)</p> <p>Merthyr Tudful</p> <p>Sir Fynwy Paula Webber (PW) Louise Brown (LB) Sue Cave (SC) Suzanne Gooding (SG)</p> <p>Castell-nedd Port Talbot Rachel Samuel (RS)</p> <p>Casnewydd Paula Webber (PW) Neeta Baicher (NB) Huw Stephens (HS) Laura Lacey (LL)</p>	<p>Sir Benfro Amanda Lawrence (AL)</p> <p>Powys Ange Williams (AW) Katie McNeill (KM) Lynette Lovell (LL) Sharron Humphreys (SH) Sian Fielding (SF) John Mitson (JM)</p> <p>Rhondda Cynon Taf Donna Graves (DG) Matthew Maidment (MM)</p> <p>Abertawe Rita Green (RG) Beverley Phillips (BP) Jennifer Harding-Richards (JHR) Paul Davies (PD)</p> <p>Torfaen Paula Webber (PW)</p> <p>Bro Morgannwg Edward Williams (EW)</p> <p>Wrecsam Libby Jones (LJ) Lisa Mullen (LM) Vaughan Salisbury (VS)</p>	<p>Arsyllwyr: REMW Paul Morgan (PM)</p> <p>CBAC Andrew Pearce (AP)</p> <p>ESTYN</p> <p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Cyngor Addysg Grefyddol (REC)</p> <p>Yr Eglwys yng Nghymru Elizabeth Thomas (ET)</p> <p>Y Gwasanaeth Addysg Gatholig</p> <p>Cymwysterau Cymru</p> <p>Rhwydwaith Rhyngffydd David Hampshire</p> <p>CCAC Elin Stock (ES)</p> <p>Cofnodion Gill Vaisey (GV)</p>
---	---	---	--

Cofnodion y cyfarfod

1. Cyflwyniad a chroeso

Croesawyd pawb yn Gymraeg a Saesneg gan RS i gyfarfod yr haf a'r Cyfarfod Blynyddol. Eglurodd y drefn ar gyfer y cyfarfod rhithiol hwn.

Yna cafwyd croeso gan Lynnette Lovell, Prif Swyddog Addysg Dros Dro Powys yn rhinwedd y ffaith mai Powys oedd yn croesawu'r cyfarfod – er ei fod yn rhithiol. Roedd Sian Fielding, ar ran Gwasanaeth Gwella Ysgolion Powys yn bresennol hefyd.

Soniodd Lynette am yr amser cyffrous sydd o'n blaenau wrth i CGM gymryd drosodd o'r hen AG, yn dod yn statudol i blant 3- 16 oed, a heb hawl i dynnu'n ôl.

Cyfeiriodd at yr ymgynghoriad ar Ganllawiau CGM sy'n agored ar hyn o bryd ac roedd hi'n cydnabod fod gan CCYSAGauC waith pwysig wrth ffurfio'i hymateb.

Tynnodd LL sylw at y ffaith fod Powys yn sir fwy amrywiol nag y byddai rhywun yn ei feddwl o ran cefndir cymdeithasol a diwylliannol ei phoblogaeth. Mae CYSAG Powys yn dymuno gwneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu'r amrywiaeth hwn yng nghynrychiolaeth ei aelodaeth. Roedd hi'n cydnabod rhywfaint o'r gwaith ardderchog sy'n digwydd mewn ysgolion.

Mynegodd LL ei diolch i Rachel Linguard a Sarah McNeil sy'n darparu cymorth gweinyddol i GYSAG Powys. Diolchodd hefyd i Sian Fielding am ei holl waith gwerthfawr a'i chefnogaeth i AG yn y sir. Nododd y bydd Sian yn gadael ei swydd ar ddiwedd y tymor.

2. Myfyrio tawel

Arweiniodd RS yr aelodau drwy fyfyrddod ar ochr gadarnhaol y pandemig yn yr ystyr ei fod wedi rhoi cyfle i ni i gyd i ail-asesu'r hyn sydd fwyaf pwysig mewn bywyd. Awgrymodd y gallem ddysgu o hyn a sicrhau ein bod yn y dyfodol yn parhau i werthfawrogi'r 'pethau bychain' a mabwysiadu ffordd arafach o fyw.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Meredith (Blaenau Gwent), Tania ap Siôn (Wrecsam), Edward Evans (Pen-y-bont ar Ogwr), Michael Gray (Caerffili), Tudor Thomas (Sir Fynwy).

4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2021

Cytunwyd fod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar ychwanegu Mary Davies o Geredigion at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol.

Cynigiodd RT fod y cyfarfod yn derbyn y cofnodion ac fe'i heiliwyd gan Keith Evans.

5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC

Eitem 7. Roedd y wefan newydd wedi'i lansio y diwrnod cynt ac mae bellach yn fyw. Diolchwyd i Nick Evans a Tania ap Siôn am eu gwaith ar y wefan.

6. Cyflwyniad PYCAG – Ymgynghoriad LIC ar Ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Eglurodd RS fod yr ymgynghoriad yn cynnwys 10 cwestiwn y mae angen i CCYSAGauC ffurfio'i hymateb iddynt.

Dangoswyd fideo a grëwyd gan Ganolfan San Silyn i roi cyd-destun i'r ymgynghoriad.

Rhannodd RS ymateb cychwynol y Pwyllgor Gwaith i'r canllawiau. Roedd hi wedi crynhoi'r rhain ar PowerPoint a fyddai'n cael ei rannu yn dilyn y cyfarfod.

GWEITHREDU: Anfon y PowerPoint i bob aelod / CYSAGau.

I ychwanegu at neu roi sylwadau ar y sylwadau a oedd eisoes ar y sleidiau, gwahoddodd RT ymatebion o'r llawr i bob un o'r cwestiynau.

Dylid darllen y sylwadau canlynol a gofnodwyd yn y cyfarfod ochr yn ochr â'r PPT.

1. Pa mor dda mae'r canllawiau yn esbonio cwmpas CGM a'i gyd-destun ym Maes y Dyniaethau?

RT - bu llawer o drafodaeth â LIC am yr ochr gyfreithiol - mae angen deall fod y pwyslais ar greu Deddf gyfreithiol gyntaf i Gymru'n unig. Bellach mae'r Ddeddf yn sôn am 'y traddodiadau yng Nghymru (nid Prydain) ac mae'n cynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

LB - nid yw'n cytuno â'r geiriad 'gwrthrychol, beirniadol a phlwrailiaethol' fel y cyfeirir ato yn y PPT ac awgrymodd fod angen edrych yn ôl ar y ddeddfwriaeth o ran adlewyrchu'r ffaith mae'r prif draddodiadau crefyddol yw rhai Cristnogol tra'n ystyried prif grefyddau eraill. Dywed fod angen cadw'r safbwynt gwreiddiol - sef adlewyrchu Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill ac mae hi'n teimlo fod 'perygl o fynd yn rhy bell at ogwydd plwrailiaethol'

Cwestiynwyd y diffiniad a roddir o grefydd yng Nghanllawiau'r CGM. Ai rhyw ddiffiniad fel un y Comisiwn Elusennau yw hwn? - mae angen ystyried hyn ymhellach.

Nid yw'r adran gyfreithiol wedi cael ei hysgrifennu'n dda iawn. Roedd y fersiwn wreiddiol yn haws ei dilyn - bellach mae mwy o dermau cyfreithiol yma sy'n ddryslyd ac yn llai hygyrch i'r darlennydd. Mae'r diffiniadau sy'n ymwneud â'r adran ysgolion ffydd yn gymhleth iawn!

RS - gyda'r darn cyfreithiol ar ddechrau'r canllawiau, mae fel pe'n cymryd gormod o flaenoriaeth dros y darn arall ac mae'n rhwystr cyn darllen yr adran am weithredu CGM.

PW - mae'r darn cyfreithiol yn ddryslyd a heb ei ddiweddarau. Dylai'r diffiniad o grefydd ddatgan fod hwn yn ddiffiniad yn y gyfraith - ac nid yn ddiffiniad academaidd a ddefnyddir / a ddeëllir yn gyffredinol mewn addysg.

CT - Llongyfarchodd Ganolfan San Silyn ar y fideo. Mae angen diffiniadau ar ystyr bydolygon, plwrailiaethol ayb. - angen rhestr eirfa glir - nid jargon.

KR - holodd am y diffiniad o grefydd a'r cyfeiriad at 'fod goruchaf' sy'n adlewyrchu crefydd monotheistiadd neu amldduwiol. Pwynt y cwricwlwm newydd yw creu addysgu gwrthrychol. Mae ar athrawon angen dealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylyr ganddynt - mae angen gwarchod athrawon drwy sicrhau eu bod yn deall sut i ddysgu CGM gyda'r dull hwn. Er na chafodd y term bydolygon ei fabwysiadu fel teitl i'r pwnc, rydym dal angen dysgu am fyddolygon.

VS – bydd mynd i'r afael â diffiniadau termau yn hollbwysig. Mae'n peri dryswch fod y gair bydolygon yn cael ei gynnwys gan nad oes diffiniad clir o'r gair hwn. Mae ef yn ymwybodol am ymchwil y Cyngor Addysg Grefyddol i ddeall y term bydolygon.

Tynnodd GV sylw at fideo Theos a rhoddodd ei dealltwriaeth hithau o'r term bydolygw. Roedd h'n canmol y fideo hwn yn fawr gan ei bod yn teimlo ei fod yn cynnig dehongliad ardderchog o ystyr y term.

[Nobody Stands Nowhere - Theos Think Tank - Understanding faith. Enriching society.](#)

GWEITHREDU: Cytunwyd i anfon y ddolen i'r aelodau i gyd.

PW - roedd y grŵp a ysgrifennodd hwn yn wreiddiol wedi rhoi diffiniad o'r term bydolygw ac mae hwn wedi'i dynnu am resymau yn ddiarwybod iddi hi. Pe bai wedi cael ei gadw byddai mwy o eglurder ar yr hyn a fwriedir drwy ddefnyddio'r term bydolygw - fod yn rhaid cynnwys archwilio pob cred ac nid yn unig y rheiny sy'n cynnwys cred mewn bod goruchaf.

LB - awgrymodd fod y term gwrthrychol yn cyfeirio at y ffaith na ddylai'r addysgu fod yn golygu trwytho (*indoctrination*). Roedd CYSAG Sir Fynwy eisiau cadw AG fel y teitl. Awgrymodd y dylai athrawon fod yn archwilio Gwerthoedd a Moeseg erbyn hyn ac nid bydolygon. Ni ddylid pellhau oddi wrth y ddeddfwriaeth. Roedd hi'n cymeradwyo fideo San Silyn. Dylid cofio fod disgresiwn gan y Pennaeth i ddysgu AG fel pwnc unigol.

RG – a oes rhestr o'r prif draddodiadau crefyddol yng Nghymru? Pwy sy'n penderfynu beth yw'r rhain?

LJ - dywedodd fod y diffiniad o 'bydolygon' a oedd yn y drafft wedi cael ei dynnu oherwydd nad oedd y term hwn wedi cael ei ddefnyddio yn y Bil na'r Ddeddf. Mae bydolygon yn gysyniad Ewropeaidd hefyd. Nid yw athrawon yn cael eu hatal rhag cynnwys bydolygon ac ysgrifennwyd canllawiau i annog plant i archwilio bydolygon ond mae angen gwneud mwy o waith ar hyn.

HS – Mae'n bwysig iawn clywed barn athrawon yn y swydd ar y canllawiau hyn.

RS - yn siarad 'gyda het athro' - roedd y fersiwn gynharach yn hawdd i'w deall a gallai hi weld sut y gallai eu haddysgu CGM gael ei ymgorffori a sut roedd hyn yn plethu i'r cwricwlwm cyfan. O ran y canllawiau diweddaraf - pan ddechreuodd ddarllen y ddogfen, ni allai wedi ei pherthnasedd iddi hi fel athrawes gan fod yr adran gyfreithiol yn cymryd drosodd. Ni ddylai'r adran gyfreithiol fod ar ddechrau'r canllawiau. Mae ail hanner y canllawiau yn gweithio'n well i athro. Bydd rhai athrawon yn gallu adnabod pethau ynddo'n hawdd - bydd eraill yn ei chael yn fwy anodd. Bydd angen dysgu proffesiynol da i gefnogi athrawon drwy'r broses addysgu a amlinellir yn y canllawiau yma.

NB – fel cynrychiolydd ffydd mae hi'n hapus i gyfrannu at Ddysgu Proffesiynol fel rhan o GYSAG Casnewydd.

Cwestiwn 2 A yw'r canllawiau, yn gyffredinol, yn glir ac o gymorth i chi yn eich swydd?

PW – mynegodd ei phryder am ble mae'r ddogfen yn eistedd o ran bod yn ganllawiau statudol. Y bwriad gwreiddiol oedd iddi fod yn fframwaith cymorth – i'w fabwysiadu neu ei addasu gan GYSAGau fel Maes Llafur Cytunedig. Erbyn hyn bydd yn cael ei ymgorffori yn y

canllawiau cwricwlwm cyffredinol i ysgolion. Mae'r statws / safle wedi newid heb ymgynghori â rhanddeiliaid. Holodd sut roedd hyn wedi digwydd a pham y bu diffyg tryloywder.

LJ - nid yw hi'n meddwl y bu symudiad - ond siwrne yn hytrach - a ddechreuodd mewn un lle - cawsom ein harwain i gredu gan LIC y byddai'n un peth ond maen nhw wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau ar hyd y daith. Mae'n rhaid i'r canllawiau fod yn statudol. Mae'n destun gofid na chafodd CCYSAGauC a ChYSAGau eu diweddarau yn ystod y broses fwy diweddar. Ers i Manon Jones adael, daeth y diweddariadau rheolaidd gan LIC i ben. Bydd y ddogfen bellach yn eistedd o fewn y canllawiau statudol ond y bwriad o hyd yw iddi fod yn sail i Faes Llafur Cytunedig.

LB – bydd y Maes Llafur Cytunedig yn benderfyniad ALI – felly dylai'r fersiwn newydd hon o'r canllawiau fod yn fframwaith anstatudol i'w ystyried. Cyflwynwyd y drafft blaenorol fel dogfen ganllaw anstatudol.

PL – os yw CYSAGau yn dilyn eu llwybr eu hunain wrth greu eu maes llafur byddwn yn colli'r cysondeb a gafwyd yn 2008. A fydd CCYSAGauC yn rhoi arweiniad i'r CYSAGau er mwyn ceisio cadw cysondeb? A fydd CCYSAGauC yn cynghori ar hyn?

GWEITHREDU: Rhoi sylwadau / syniadau PL ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.

KR - awgrymodd fod y newid yn natur y ddogfen wedi digwydd yn syth ar ôl dileu'r hawl i dynnu'n ôl. Ers dileu hwn, mae'n hanfodol fod y ddeddfwriaeth yn cael ei hesbonio'n glir. Mae agwedd genedlaethol at Faes Llafur Cytunedig yn ddelfrydol ond mae'n rhaid i ni sicrhau mai dyma'r fframwaith cywir i'w fabwysiadu.

KE – Mae LIC yn ceisio creu dogfen sy'n addas i bawb. Os oes gan bobl safbwyntiau gwahanol, bydd hyn yn creu sefyllfa anodd. Mae ef yn teimlo fod LIC wedi gwneud gwaith da o ddarparu dogfen y gallwn ni i gyd weithio gyda hi.

Cwestiwn3 A yw'r canllawiau yn cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi ymarferwyr wrth lunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer CGM?

MM – bydd yn rhaid i athrawon dreulio oriau lawer yn dehongli'r canllawiau ar eu pennau eu hunain. Mae angen deunyddiau enghreifftiol i athrawon. Byddai deunyddiau mwy eglur wedi bod o gymorth gan mai dyma beth sydd ei angen ar athrawon.

LO – i ymarferwyr nad oes ganddynt gefnogaeth yn eu ALLau, bydd hon yn her enfawr. Mae angen chwilio yn y canllawiau i ddod o hyd i'r darn perthnasol.

PW – wedi gweithio gydag ymarferwyr EAS – roedd hi'n meddwl tybed allai'r ddogfen fod yn fwy o sut i gynllunio'r cwricwlwm. Gellid datblygu'r cwestiynau ar y diwedd yn fwy fel canllaw sut i wneud.

AP - o safbwynt athrawes mae'r canllawiau yn frawychus wrth eu darllen gyntaf ac wrth ddatgymalu'r lensys a'r teithiau dysgu. Mae'r Teithiau Dysgu o gymorth ond byddant yn anodd i athrawon sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain. Mae angen Dysgu Proffesiynol er mwyn symud ymlaen.

LB - pryder am ysgolion uwchradd heb athrawon arbenigol. Mae'n bwysig peidio â cholli arbenigeddau yn AG. Mae'r cwricwlwm yn gyffredinol yn rhoi hyblygrwydd i athrawon ddysgu gwahanol bynciau mewn gwahanol ffyrdd drwy ddefnyddio amryw o ddulliau disgyblaethol.

PL – yn 2008, cynhyrchodd ALLau eu deunydd ategol eu hunain i fynd gyda'r Maes Llafur Cytunedig. Allai CCYSAGauC gynnig arweiniad ar gynhyrchu deunyddiau ategol?

Awgrymodd RS fod yn rhaid i ni gofio fod angen adlewyrchu'n lleol sefyllfa pob ysgol.

PW – yn 2008 nid oedd y consortia gennym, dim ond y 22 ALI.

RS – dywedodd nad yw rhai ALI mewn consortia erbyn hyn.

